| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **BWRDD PENSIWN** |
| DYDDIAD: | **29 CHWEFROR 2024** |
| TEITL: | **AMCANION STRATEGOL AR GYFER YMGYNGHORWYR BUDDSODDI'R GRONFA** |
| PWRPAS: | **Adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion cyfredol a nodi amcanion y dyfodol** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

Ar ddiwedd 2018, yn dilyn adolygiad o'r marchnadoedd ymgynghori buddsoddi a rheoli ymddiriedol, nododd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ("CMA") y dylai Ymddiriedolwyr Cronfeydd Pensiwn osod amcanion i'w hymgynghorwyr buddsoddi. Mae'r amcanion yma yn cael eu gosod a'u diweddaru bob blwyddyn.

## 2. GOSOD AMCANION I YMGYNGHORWYR BUDDSODDI

Mae'r CMA yn nodi y dylai amcanion ar gyfer ymgynghorwyr gynnwys diffiniad clir o'r canlyniad a ddisgwylir, a dylent:

- fod wedi'u cysylltu yn agos gydag amcanion strategol y gronfa bensiwn
- cael eu hadolygu o leiaf bob tair blynedd, ac ar ôl pob newid sylweddol i'r strategaeth fuddsoddi neu amcanion

Mae sefydlu amcanion tymor hir yn rhan o drefniadau llywodraethu da. Mae'r estyniad o osod amcanion i ymgynghorwyr buddsoddi yn gallu cael ei ystyried fel dilyniant naturiol i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn anelu tuag at yr un nod.

## 3. AMCANION CRONFA BENSIWN GWYNEDD I YMGYNGHORWYR BUDDSODDI

Mae amcanion Cronfa Bensiwn Gwynedd yn Atodiad 1, gydag adroddiad cynnydd yn erbyn yr amcanion yn ystod 2023.

Mae'r datganiad cydymffurfio wedi ei arwyddo gan Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau erbyn y dyddiad cau gofynnol o 7fed o Ionawr 2024.

## 4. AMCANION Y DYFODOL

Mae'r amcanion presennol wedi'u cyfuno i 10 amcan allweddol yn Atodiad 2 ar gyfer y dyfodol. Maent yn parhau i fod yn weddol debyg ond wedi lleihau'r nifer i gadw ffocws iddynt.

Mae prosiectau eraill sy'n debygol o ddigwydd yn 2024 gan ein hymgynghorwyr buddsoddi yn cynnwys:

▪ Asesiad o bŵlio asedau gan gynnwys dadansoddiad 'pŵlio neu esbonio pam ddim'

▪ Cynllunio trawsnewid hinsawdd tuag at darged Sero Net, ac adeiladu tuag at TCFD (er bod yr amserlen ar gyfer hyn yn parhau i fod yn ansicr)

▪ Stiwardiaeth weithredol: adolygiad o weithgaredd pleidleisio rheolwyr, a datblygu dull o ymgysylltu, gydag adolygu a goruchwylio PPC (fel sefydliad a'i gronfeydd) yn rhan gynyddol bwysig o hyn

▪ Cyngor mewn perthynas â mandad eiddo

▪ Asesiad blynyddol o ymrwymiadau cronfa ecwiti preifat PPC i gynnal y dyraniad targed

▪ Asesiad ddwywaith y flwyddyn o anghenion hylifedd tymor byr ar gyfer ymrwymiadau marchnadoedd preifat

## 5. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad cynnydd ac amcanion yr Ymgynghorwyr Buddsoddi am y cyfnod nesaf.